

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Ebrill 2015

Presennol – Gareth Wynne Cadeirydd, Terry Bullock, Gwawr Jones, Karen Pugh, Marion Bettenev, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau, Jim Boughton, Meirion Owen, Gareth Parry, Janet Charlton Sian Godbert, Cynghorydd Sir Elisabeth Roberts.

Datgan diddordeb. Datganiwyd diddordeb gan y Cyng Karen Pugh yng nghofnod [2.1] Penderfynwyd nad oedd yn rhagfarnu ar y mater dan sylw. Darllenwyd a chymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 9fed Fawrth 2015.

(1) Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu yn bresennol yn y cyfarfod.

(1.1) Arwyddion Blêr

Cytunodd y cynghorydd M Bettenev i anfon manylion y trefnydd affair hen greiriau i'r clerch.

(1.2) Cais i gynnal Pont Droed Gorsaf Drên Betws-y-coed

Nodwyd bod y mater yn parhau.

(1.3) Cyhoeddiadau Awtomataidd Gorsaf Reilffordd Betws-y-Coed/

Cyfeiriodd y clerch at ohebiaeth oddiwrth Trenau Arriva eu bod yn gwneud popeth posib i gywiro y cyhoeddiadau yng ngorsafoddd trenau Cymreig.

(1.4) Difrod i falconi y Neuadd Goffa

Dywedodd y clerch ei fod wedi trefnu i'r difrod gael ei archwilio.

(1.5) Creu swigod / Cae Llan

Deallwyd nad oes dim gwarchodaeth yn cael ei roi o dan y bwcedi ar rai adegau. Y clerch i gysylltu gyda'r perchenog, i esbonio os nad ydynt yn cydymffurfio gyda gofynion y Cyngor ni fydd y gweithgaredd yn cael ei ganiatau yn y dyfodol.

[1.6] Cinio Elusenol Y Lluoedd Arfog/Gogledd Cymru

Penderfynwyd i gefnogi'r digwyddiad trwy archeb tocyn £45.00

[1.7] Canghenni Coed Eiddew/Llwybr o Ffordd yr Orsaf i Stablau'r Royal Oak

Y clerch i gysylltu gyda'r Parc Cenedlaethol i geisio cael torri'r canghennau

(1.8) Cwn yn baeddu yng Ngae Llan

Nodwyd bod Cyngor Sir Conwy wedi cytuno i gynyddu ymweliadau gan y wardeniaid cwn.

Y brif agenda

[1.9] Materion Cynllunio

Cais i adnewyddu caniatad ar gyfer mast presennol 20m o uchder a.y.b. Gwesty'r Rhaeadr Ewynnol.

[2]) Materion Ariannol

(a) Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau (a ddosbarthwyd) a wnaed ym mis Mawrth 2015.

(b) Y Rhaeadr Ewynnol –Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Mawrth 2015.

[2.1] Cymdeithas Gweithwyr Crefftau Clwyd/Gwynedd

Cyfeiriodd y clerc at gais gan y gymdeithas i gynnal ffair grefftau yng Nghae Llan yn ystod mis Medi. Penderfynwyd mai dim ond busnesau sydd yn talu trethi busnes ym Metws[oddigerth stondinau elusenol] sydd i gael gwneud defnydd o'r cae. Penderfynwyd i drafod y mater ymhellach yn y cyfarfod nesaf.

[2.2] Pencampwriaeth y Byd Ras Redeg Mynydd

Cyfeiriodd y clerc at gais gan Gyngor Sir Conwy am gefnogaeth ariannol. Penderfynwyd i'w adael hyd nes y cyfarfod nesaf.

(2.3) Materion Priffyrdd

Priffordd yr A5 ger Glennwood. Y clerc i dynny sylw ynglyn a moduron sydd yn parcio yn ymyl yr arosfa bws ac yn creu anhawster i foduron yn ceisio mynediad i'r briffordd o gyfeiriad Pentre Du.

[2.4] Pont Waterloo Dathliant Dau Gan Mlynedd

Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr Glenn Evans ynglun a threfniadau i ddathlu dau gan mlwyddiant brwydr Waterloo a bod y bont wir angen ei pheintio. Eglurodd y clerc iddo ef ynghyd ar Cyng Elisabeth Roberts gydnabod llythyr Mr Evans ynglyn a'r mater.

[2.5] Llechi Rhydd [Siop Wag] Ultimate Outdoors

Esboniodd y Cyng Gwawr Jones nad oedd wedi medru cysylltu gyda'r perchennog. Y clerc i dynnu sylw Cyngor BS Conwy i'r mater.

Cadeirydd_____